BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 5 MEDI 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa:

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Teresa Rees
Andy Carter
Dafydd Whittall
Sangeet Bhullar
Alex McMillan
Nicola Branson
Jane James
Dennis Gethin
Roy Grant
Arun Midha
Carl Cooper

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes (dros y ffôn ar gyfer eitem 63)
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni Saesneg
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cymru Wales
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd, Cymru Wales
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd, Cymru Wales

Yn gwasanaethu:

Mark Byford, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC (ar gyfer eitemau 63 a 64)
Gwenllïan Carr, Rheolwr Cenedlaethol Cymru, Digital UK (ar gyfer eitem 62)
Rhys Evans, Dirprwy Bennaeth Newyddion a Materion Cyfoes (ar gyfer eitem 63)

58. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Keith Jones
Cath Allen

59. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Adrodd yn ôl ynghylch digwyddiadau atebolrwydd

Roedd aelodau'r Cyngor yn cytuno bod cinio'r noson flaenorol gyda llunwyr barn o sefydliadau ar draws Cymru wedi bod yn ddigwyddiad llwyddiannus, ac roedd y penderfyniad i ganolbwyntio ar themâu gwahanol ar fyrddau gwahanol wedi bod yn benderfyniad cywir. Roedd y cyfranogwyr wedi ymateb i raddau helaeth iawn fel cyfeillion beirniadol i'r BBC, ac roedd rhai o'r rheiny a oedd yn bresennol wedi mynegi awydd i gael cais uniongyrchol yn y dyfodol i ymateb i ymgynghoriadau (yn enwedig y cyfranogwyr iau). Mynegwyd awydd hefyd i gydweithio â Chyngor Cynulleidfa Cymru ar ddigwyddiadau atebolrwydd a fyddai'n cael eu cynnal yn y dyfodol. Cydnabu'r Cyngor bod lefelau ymwybyddiaeth o Gyngor Cynulleidfa Cymru ac Ymddiriedolaeth y BBC yn isel iawn yn gyffredinol.

Cafodd y Cyngor wybod hefyd bod cyfarfod llwyddiannus iawn wedi'i gynnal â chynrychiolwyr y gymuned amaethyddol yn Llanwnnen ddiwedd mis Gorffennaf, ac atgoffwyd aelodau'r Cyngor bod adroddiad ar y cyfarfod wedi'i gynnwys ymhlith eu papurau.

Adrodd yn ôl ynghylch cyfarfod o weithgor Cyngor Cynulleidfa Cymru a gynhaliwyd ar 4 Medi

Dywedodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd wrth y Cyngor bod Dirprwy Gyfarwyddwr Uned yr Ymddiriedolaeth erbyn hyn yn rheolwr llinell i'r Penaethiaid Llywodraethu ac Atebolrwydd, a'i fod yn arwain gwaith yr Ymddiriedolaeth gyda'r Cynghorau Cynulleidfa. Yn ogystal, dywedodd bod cynlluniau ar gyfer dau ddigwyddiad allgyrraedd ar gyfer pobl ifanc yn yr arfaeth ar gyfer y misoedd nesaf - i'w cynnal yn Aberystwyth a Bangor. Roedd dogfen ar weithgarwch allgyrraedd a chyfathrebu'r Cyngor wedi'i pharatoi gan Dîm Llywodraethu Cymru, a byddai'n cael ei dosbarthu i'r Cyngor yn y dyfodol agos i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Hydref.

Busnes yr Ymddiriedolaeth

Soniodd yr Ymddiriedolwr wrth y Cyngor am rai penodiadau diweddar i uwch dîm rheoli'r BBC.

Adolygiad Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM – Dywedodd yr Ymddiriedolwr wrth y Cyngor ei bod wedi mynychu seminar a gynhaliwyd gan OFCOM ym mis Gorffennaf, a bod disgwyl i ail set o gynigion ynghylch Darlledu fel Gwasanaeth Cyhoeddus ymddangos yn ystod yr wythnosau nesaf. Dywedodd y byddai angen ystyried ymatebion i'r cynigion hynny'n ofalus.

Ymateb tîm rheoli'r BBC i Adolygiad Diduedddrwydd Newyddion y Rhwydwaith - Dywedodd yr Ymddiriedolwr wrth y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r cynigion terfynol gan y tîm rheoli trwy ddatgan eu bod nhw'n ymateb priodol.

Comisiynu a chyflenwi'r Rhwydwaith – Dywedwyd wrth y Cyngor bod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar y ffigyrau ynghylch comisiynu ar gyfer y Rhwydwaith y tu allan i Lundain.

Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cael adroddiad ar *effaith economaidd y BBC*, a baratowyd gan Price Waterhouse Cooper, a dywedwyd wrth y Cyngor bod yr adroddiad yn dangos bod y BBC yn cyfrannu'n sylweddol i economi'r DU.

Roedd dogfennau a oedd yn cynnwys *ymateb Cyngor Cynulleidfa Cymru i dri ymgynghoriad* – Prawf o Werth Cyhoeddus BBC Local, Syndicetio trwy 3G, a rhagarchebu iPlayer - wedi'u cyflwyno ac roeddent ymhlith papurau'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd wrth y Cyngor bod ymatebion wedi dod i law gan Reolwr BBC Three a Phennaeth Cyfryngau a Thechnoleg y Dyfodol i gwestiynau a godwyd gan y Cyngor, a'u bod wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Cyngor.

Cofnododd y Cyngor ei werthfawrogiad enfawr o ddarllediadau'r BBC o'r Gêmau Olympaidd. Roedd o'r farn bod y darllediadau o'r radd flaenaf. Yn ogystal, dywedodd y Cyngor bod y darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn ardderchog.

Gofynnodd y Cyngor a fyddai'n bosibl i'r aelodau fynychu 'cyfarfodydd comisiynu', oherwydd gallai hynny fod yn fodd i gynyddu gwybodaeth. Ymatebodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd trwy ddweud y byddai ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch priodoldeb hynny ac y byddai'r Cyngor yn cael ei hysbysu ynghylch y mater.

GWEITHREDU: PENNAETH LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Byddai *Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ynghylch Casglu Ffi'r Drwydded* yn cael ei lansio'r dydd Llun canlynol, a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei dosbarthu i aelodau'r Cyngor adeg lansio'r ymgynghoriad yr wythnos ganlynol.

Ymunodd y tîm rheoli â'r cyfarfod

60. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL AC UNRHYW FATERION SY'N CODI OHONYNT

Cafodd y cofnodion eu derbyn yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod. Nid oedd unrhyw faterion yn codi ohonynt.

61. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Y Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol – Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wrth y Cyngor bod yr Adolygiad o'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol wedi'i gwblhau ac wedi dangos bod y cynllun yn gweithio'n dda ar y cyfan. Roedd y broses wedi dechrau'n dda, ac roedd cwmnïau annibynnol wedi elwa llawer iawn o'r cyfleoedd y mae'r cynllun yn eu cynnig.

Rhyddhau deunydd Jam – Canmolodd y Cyngor ganlyniad yr adolygiad yn fawr, ond dywedodd unwaith eto ei fod o'r farn y dylid mynd ati cyn gynted ag sy'n bosibl i ryddhau'r deunydd sydd ar restr 'B'. Canmolodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y rôl allweddol yr oedd Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi'i chwarae yn y broses.

Adolygiad o wasanaeth bbc.co.uk – Atgoffodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol y Cyngor bod y gwasanaeth hwn wedi mynd yn bell y tu hwnt i'r gyllideb a oedd wedi'i nodi ar ei gyfer, ond dywedodd bod Ymddiriedolaeth y BBC yn eithaf hyderus bod cyllideb y gwasanaeth dan reolaeth erbyn hyn yn dilyn problemau dyrannu costau cyffredinol.

Adroddiad Rheolwr Cymru

Dywedodd Rheolwr Cymru wrth y Cyngor am y newyddion trist iawn bod Bob Humphreys wedi marw ychydig amser yn ôl. Roedd ei farwolaeth wedi bod yn ergyd wirioneddol i'w gydweithwyr yn y BBC.

Dywedodd wrth y Cyngor bod y darllediadau o'r Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn arbennig o dda eleni, ac roedd deunydd helaeth iawn wedi bod ar gael ar-lein. Cadarnhaodd y Cyngor farn y Rheolwr gan gytuno bod darllediadau'r BBC o'r Eisteddfod wedi bod yn wych. Mynegodd un aelod o'r Cyngor y farn bod cyfraniad yr Uwch-gynhyrchydd wedi bod yn wirioneddol bwysig. Dywedodd y Rheolwr wrth y Cyngor hefyd bod protestiadau wedi'u cynnal yn yr Eisteddfod ynghylch y newidiadau i arlwy Radio Cymru.

Atgoffodd y Rheolwr y Cyngor o gyfraniad Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC i 'Proms' y BBC, a oedd wedi bod yn gyfraniad pwysig iawn.

Talodd deyrnged i gyfraniad tri aelod o staff BBC Cymru Wales a oedd wedi bod yn y Gêmau Olympaidd yn Beijing ac a oedd wedi llwyddo i gynhyrchu darllediadau nodedig o ran ehangder a dyfnder.

Dywedodd wrth y Cyngor ei bod hi wedi cynnal ei chyfarfod cyntaf â Gweinidog newydd y Cynulliad Cenedlaethol dros Ddiwylliant.

Cafodd y Cyngor wybod bod Neuadd Hoddinott ar fin cael ei throsglwyddo i'r BBC gan y datblygwyr adeiladu ac y byddai'n cael ei hagor yn swyddogol yn ôl y disgwyl yn gynnar yn 2009.

Holodd y Cyngor ynghylch y sylw y byddai BBC Cymru Wales yn ei roi i'r Gêmau Paralympaidd, a chafodd wybod bod rhaglen wrthi'n cael ei chynhyrchu am yr athletwyr o Gymru a oedd yn y Gêmau Olympaidd a'r Gêmau Paralympaidd ac y byddai'r Gêmau Paralympaidd yn cael sylw gan Newyddion BBC Cymru Wales.

Adroddiad y Bwrdd

Dywedodd aelodau'r Cyngor wrth y tîm rheoli eu bod yn edrych ymlaen at ddrama radio *Torchwood* a oedd i'w darlledu ar adeg a fyddai'n cyd-ddigwydd â dyddiad comisiynu'r Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr yng nghyfleuster CERN yn y Swistir.

Trodd y Cyngor ei sylw at y mater a oedd yn ymwneud â chyflwyno adroddiadau'r Ymddiriedolaeth – a oedd yn cyfeirio at Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ond nad oeddent yn cyfeirio at Loegr. Awgrymwyd y dylai Uned yr Ymddiriedolaeth ystyried y mater hwn. Ymholwyd hefyd ynghylch y defnydd a wneid o'r term 'non-white' yn Saesneg.

62. NEWID I DELEDU DIGIDOL YNG NGHYMRU

Croesawyd Gwenllïan Carr, Rheolwr Cenedlaethol Cymru Digital UK i'r cyfarfod. Dywedodd wrth y Cyngor bod Digital UK yn gorff nid-er-elw annibynnol a sefydlwyd i gynorthwyo pobl i newid i deledu digidol, a'i fod yn ymwneud â'r BBC, ITV, S4C, Channel Four, Five, Teletext a
National Grid Wireless.

Adeg y cyfarfod, dim ond tua 60% o gartrefi Cymru oedd yn gallu cael signal digidol gan ddefnyddio dulliau trosglwyddo daearol confensiynol. Byddai'r signal fodd bynnag yn cael ei gryfhau adeg y newid i deledu digidol, a byddai hynny felly'n cynyddu nifer y cartrefi a fyddai'n gallu ei gael.

Dywedodd wrth y Cyngor bod natur topograffi Cymru yn golygu bod y darlun o'r graddau y gellir cael signal digidol yn ddarlun cymhleth. Byddai'r newid i deledu digidol yn digwydd rhwng mis Awst 2009 a dechrau 2010.

Cafodd y Cyngor wybod bod lefelau ymwybyddiaeth yn uchel yng Nghymru, a bod disgwyl i daith gyfredol Digital UK trwy Gymru godi lefelau ymwybyddiaeth o'r dyddiadau ar gyfer newid i deledu digidol ymhellach.

Gan ganolbwyntio ar Orllewin Cymru, dywedodd Gwenllïan Carr wrth y Cyngor y byddai'r newid i deledu digidol yn digwydd ym mis Awst/Medi 2009 ac y byddai grŵp lleol yn dechrau ar ei waith ym mis Medi 2008. Yng Ngogledd Cymru, byddai'r newid yn digwydd yn ystod pedwerydd chwarter 2009. Byddai'r newid yn digwydd yn ystod chwarter cyntaf 2010 yng Nghanolbarth a De-ddwyrain Cymru, a byddai union ddyddiad y newid yn cael ei gyhoeddi'n gynnar yn 2009.

Nodwyd bod y materion allweddol sy'n ymwneud â newid i deledu digidol fel a ganlyn:

1. Nid yw Freeview ar gael mewn rhannau helaeth o Gymru. Adeg y cyfarfod, roedd 60% o boblogaeth Cymru yn gallu cael signal Freeview, ond byddai'r ganran yn codi i 97.8% ar ôl y dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol.
2. Dim ond 57% o boblogaeth Cymru sy'n gallu cael pob un o'r chwe amlblecs. Bydd y ganran yn codi i 73% ar ôl y dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol – mae hynny'n golygu y bydd 27% o gartrefi yng Nghymru yn cael llai o wasanaethau.

3. Mae rhai rhannau o Gymru, yn enwedig yn y Gogledd-ddwyrain, yn cael signal cryfach o ranbarthau teledu eraill (Central neu Granada), sy'n golygu ei bod yn haws iddynt gael gwasanaethau heblaw'r rhai a geir yng Nghymru.
4. Mae nifer o bobl yng Ngogledd-ddwyrain Cymru yn dewis troi eu herial i gyfeiriad Granada i gael newyddion lleol o Lerpwl a Manceinion. Problem arall oedd y ffaith ei bod yn ymddangos yn debygol mai dim ond trwy signal o drosglwyddyddion y tu allan i Gymru y gallai'r chwe amlblecs fod ar gael.
5. Roedd Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn llafar iawn eu barn am y materion hyn.
6. Roedd angen sicrhau bod pob set deledu yn y cartref, ac nid dim ond y brif set deledu, yn barod i gael signal digidol.
7. Roedd angen sicrhau y byddai offer recordio'n gweithio ar ôl y dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol.

Roedd yn hanfodol bod pobl yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael i gwsmeriaid wrth i'r dyddiad ar gyfer newid i deledu digidol nesáu, ac roedd yn hanfodol eu bod yn gallu penderfynu beth sy'n addas ar eu cyfer nhw.

Soniodd Gwenllïan Carr wrth y Cyngor hefyd am y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan Digital Outreach Ltd, sef cyfuniad o elusennau sy'n cynorthwyo pobl hŷn, pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, pobl â namau ar eu synhwyrau, eu gallu i symud neu'u deheurwydd, pobl ag anawsterau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu, neu bobl nad ydynt yn rhugl yn Gymraeg neu Saesneg. Byddai cyfraniad yr elusennau'n helpu gyda'r gwaith allgyrraedd sy'n ymwneud â newid i deledu digidol, a byddai'n helpu pobl â'r agweddau ymarferol sy'n ymwneud â'r newid.

Cafodd y Cyngor wybod am fanylion y Cynllun Cymorth wedi'i Dargedu a oedd yn cael ei weithredu ar y cyd gan lywodraeth y DU a'r BBC. Byddai'r cynllun hwn yn helpu pobl hŷn, pobl ag anableddau difrifol a phobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall.

Dywedwyd wrth y Cyngor bod y 'tic' digidol yn dod yn symbol cydnabyddedig ym maes diogelu defnyddwyr ar gyfer offer digidol, manwerthwyr, a phobl achrededig sy'n gosod erialau. Roedd y 'tic' yn cael ei ddefnyddio hefyd mewn perthynas â thimau cynghori defnyddwyr, gan gynnwys elusennau a thimau safonau masnach awdurdodau lleol.

Dywedodd Gwenllïan Carr wrth y Cyngor bod gwefan Digital UK yn gynhwysfawr iawn a'i bod yn cynnig ystod eang o adnoddau. Roedd adnoddau print, Braille a chlywedol ar gael ac wrthi'n cael eu dosbarthu. Gofynnodd y Cyngor a oedd ysgolion yn cael eu defnyddio fel modd i drosglwyddo negeseuon ynghylch y newid i deledu digidol, a chadarnhaodd Rheolwr Cenedlaethol Digital UK bod ysgolion yn cael eu targedu a'u defnyddio at y diben hwnnw. Mynegodd ei diolch am y cymorth yr oedd y BBC wedi'i roi, a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weld y cydweithio hwnnw'n parhau.

63. CYFLWYNIAD AR YMATEB TÎM RHEOLI'R BBC I'R ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD DIDUEDDRWYDD O'R SYLW A RODDIR I WLEDYDD UNIGOL Y DU AR Y RHWYDWAITH

Croesawyd Mark Byford, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC i'r cyfarfod, a dywedodd bod yr Adolygiad Diduedddrwydd ac Adroddiad yr Ymddiriedolaeth wedi'u derbyn yn llawn gan wasanaeth Newyddion y BBC. Roedd y gwasanaeth yn derbyn bod datganoli grym gwleidyddol yn y DU yn newid cyfansoddiadol trawsnewidiol, a bod ymchwil yn dangos bod gan y rhan fwyaf o gynulleidfaoedd y BBC ddiddordeb mewn gwybod beth sy'n digwydd mewn ardaloedd eraill yn y DU.

Roedd yr Adolygiad yn cydnabod bod newyddion y BBC yn ddiduedd o safbwynt gwleidyddol, ac roedd hynny wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi'r BBC i gadw'i hygrededd. Y prif bryder a nodwyd gan y tîm rheoli'n dilyn cyhoeddi Adolygiad Diduedddrwydd yr Ymddiriedolaeth oedd cywirdeb. Yn ail, derbynnid bod gormod o sylw'n cael ei roi mewn newyddion i weithgarwch gwleidyddol yn San Steffan, bod gormod o sylw'n cael ei roi i Dde-ddwyrain Lloegr, ac nad oedd sefyllfaoedd gwleidyddol gwahanol wledydd y DU yn cael eu cymharu â'i gilydd yn ddigonol. Yn drydydd, cydnabyddid bod Newyddion Rhwydwaith y BBC wedi colli cyfleoedd allweddol, a'r enghraifft orau o hynny oedd pan fethodd Newyddion y Rhwydwaith â rhoi unrhyw sylw o gwbl i'r drafodaeth ynghylch clymbleidio yn dilyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007.

Yn ymateb gwreiddiol y tîm rheoli, roedd y BBC wedi cydnabod y dylai ddilyn newidiadau cyfansoddiadol wrth iddynt ddigwydd, a bod angen i'r Gorfforaeth adlewyrchu'r ystod a'r amrywiaeth a oedd yn bodoli yn y DU yn ei darllediadau.

Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn gobeithio bod y Cyngor yn ymwybodol o'r ffaith bod newidiadau'n cael eu cyflwyno'n barod, a bod y newidiadau a weithredwyd yn ofyniad. Dywedodd ei bod yn orfodol erbyn hyn i stori ddangos yn glir pa ran o'r DU yr oedd hi'n berthnasol iddi. Roedd penderfyniad wedi'i wneud a oedd yn golygu y byddai Bwrdd Newyddiaduraeth y BBC, sy'n pennu strategaeth newyddiaduraeth gyffredinol y BBC, yn cyfarfod yn awr ym mhob un o wledydd unigol y DU o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ganolbwyntio'n arbennig yn y cyfarfod hwnnw ar faterion a ddatganolwyd sy'n gysylltiedig â'r wlad dan sylw.

Yr amcan pennaf sydd wedi'i bennu ar gyfer gwasanaeth Newyddion y BBC wrth iddo gyflwyno adroddiadau newyddion am y DU yw y dylai gymharu polisïau'n well, labelu'n well, a chyfoethogi'r sylw a roddir. Byddai'n ofynnol i bob aelod o staff yr adran fynychu gweithdy, a byddai'n ofynnol i bob golygydd gael hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu er mwyn gwella'u gwybodaeth am ddatganoli.

Dywedodd wrth y Cyngor mai nod allweddol iddo ef yn bersonol oedd rhoi llai o sylw i faterion pob dydd a sôn mwy am y newidiadau sylfaenol sy'n digwydd yn y DU. Roedd am i ohebwyr y Rhwydwaith mewn gwledydd unigol ganolbwyntio mwy ar sut yr oedd datganoli'n dod i'r amlwg.

Yn ogystal, byddai'n ofynnol yn y dyfodol i arbenigwyr pwnc gydweithio'n agos â newyddiadurwyr yn y gwledydd unigol, trwy gyfarfod â nhw o leiaf unwaith bob tri

mis. Byddai'n ofynnol hefyd i bob rhaglen Materion Cyfoes unigol ar y Rhwydwaith gael hyrwyddwyr datganoli. Cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth Newyddion a Materion Cyfoes Cymru bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal erbyn hyn rhwng Nick Robinson a'r golygyddion gwleidyddol yng ngwledydd cyfansoddol y DU. Roedd hynny wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y storïau gwleidyddol o wledydd unigol y DU, a gâi sylw ar Newyddion y Rhwydwaith.

Byddai'r prosiect porth gwleidyddiaeth, *Democratiaeth yn Fyw* (*Democracy Live)*, yn ddatblygiad arloesol a chyffrous a fyddai'n cael ei gyflwyno'n gynnar yn y Flwyddyn Newydd, a byddai pob senedd/cynulliad cenedlaethol yn y DU yn cael yr un sylw ac ar gael i'r un graddau. Byddai termau chwilio a themâu gwleidyddol yn fodd i gael gafael ar ddeunydd amlgyfrwng.

Wrth gyfeirio at hyfforddiant a gwella gwybodaeth, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol wrth y Cyngor bod llawer iawn o hyfforddiant wedi'i ddarparu i newyddiadurwyr wrth i ddatganoli ddigwydd gyntaf ddiwedd y 1990au, ond ei bod yn amlwg erbyn hyn bod angen cyflwyno rhaglen hyfforddi newydd ar ddatganoli. Yn ogystal, dywedodd y byddai rhestr newydd o dermau'n cael ei chyflwyno ar-lein, a fyddai'n adnodd defnyddiol iawn i newyddiadurwyr.

Byddai'n ofynnol hefyd i bob golygydd Rhwydwaith o bwys dreulio wythnos yn un o'r ystafelloedd newyddion cenedlaethol i weld beth sy'n digwydd yno, a byddai hynny'n cael ei fonitro'n ffurfiol gan y Bwrdd Newyddiaduraeth bob tri mis. Yn ogystal, ymrwymodd Mark Byford i roi copïau i'r Cyngor Cynulleidfa o'r adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Bwrdd Newyddiaduraeth, sy'n adrodd ynghylch gweithredu'r targedau a osodwyd yn ymateb y Bwrdd Gweithredol i'r Adolygiad Diduedddrwydd, ac ymrwymodd i ddarparu adroddiad ffurfiol i'r Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2009.

Diolchodd y Cyngor i Mark Byford am ei gyflwyniad, a chadarnhaodd bwysigrwydd darparu'r rhestr o dermau datganoli i newyddiadurwyr ar-lein, gan mai un o'r materion allweddol y tynnir sylw'r Cyngor ato'n rheolaidd yw'r ffaith bod y derminoleg a ddefnyddir mewn perthynas â Chymru ar raglenni newyddion yn anghywir.

Cadarnhaodd y Cyngor ei fod yn teimlo bod Newyddion Rhwydwaith y BBC wedi cymryd cam pwysig ymlaen yn ystod y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, wrth ganmol y cynllun gweithredu roedd y Cyngor hefyd am gydnabod her barhaus sylweddol, sef yr her i 'brif-ffrydio'r' materion allweddol a amlygwyd yn Adolygiad Diduedddrwydd Ymddiriedolaeth y BBC a rhoi Cynllun Gweithredu Tîm Rheoli'r BBC ar waith. Yn ogystal, pwysleisiodd y Cyngor bod datganoli'n broses barhaus ac y byddai newidiadau'n digwydd hyd yn oed wrth i gynigion y cynllun gweithredu gael eu rhoi ar waith.

Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn derbyn bod datganoli'n broses barhaus a'i fod wedi ymrwymo i adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd – ond dywedodd ei bod yn bwysig aros yn ddiduedd ac adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddigwydd yn hytrach na'u rhagweld.

Ategodd y Cyngor y pwynt ynghylch pwysigrwydd adlewyrchu pedair gwlad y DU, ac nid adlewyrchu Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a San Steffan/De-ddwyrain Lloegr yn unig.

Cydnabu'r Cyngor bod newid mawr wedi digwydd o ran agwedd mewn cyfnod eithaf byr. Dair blynedd yn ôl, roedd Cyfarwyddwr Newyddion y BBC wedi dweud wrth y Cyngor bod rhai o'r pethau sydd wedi digwydd erbyn hyn yn 'rhy anodd' i'w cyflwyno. Roedd un mater yn dal i fod heb ei ddatrys, sef y mater sy'n ymwneud â ph'un a yw Newyddion y Rhwydwaith yn portreadu realiti Cymru fel gwlad ddwyieithog.

Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ei fod yn derbyn bod datganoli'n ymestyn ymhellach na sefydliadau gwleidyddol yn unig a bod materion yn ymwneud â hunaniaeth yn rhan o'r broses hefyd, a chytunodd i ailedrych ar y mater sy'n ymwneud â phortreadu Cymru fel gwlad ddwyieithog.

Yn ogystal, cododd y Cyngor y mater sy'n ymwneud â phortreadu chwaraeon, a phwysigrwydd rhoi triniaeth gyfartal i bob un o'r timau cenedlaethol, a chododd y mater penodol sy'n ymwneud â methiant Newyddion y BBC i ddefnyddio'r term 'Bwrdd Criced Cymru a Lloegr'. Cytunodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol bod enghreifftiau o newyddiaduraeth chwaraeon anghywir yn parhau i fod yn rhy gyffredin o lawer, a bod angen gwneud cryn dipyn o waith i ddatrys y sefyllfa.

Anogodd y Cyngor i roi gwybod iddo am faterion penodol yr oeddent yn sylwi arnynt, a dywedodd unwaith eto y dylai'r adroddiadau monitro a'r adroddiadau ar gynnydd a gyflwynir yng nghyfarfodydd y Bwrdd Newyddiaduraeth gael eu rhannu â Chyngor Cynulleidfa Cymru.

64. CYFLWYNIAD AR *PROFFILIAU (PROFILES)*, CANLLAW I GYNULLEIDFA A BARATOWYD GAN Y BBC AR GYFER GWNEUTHURWYR RHAGLENNI

Rhoddodd Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales, gyflwyniad i'r Cyngor lle bu'n egluro cynllun *Proffiliau* BBC Cymru Wales. Roedd hwn yn brosiect â ffocws mewnol, a'i fwriad oedd bod yn fodd i gynorthwyo gwneuthurwyr rhaglenni i ddeall eu cynulleidfaoedd. Pwysleisiodd nad rôl yr adran Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd oedd dweud wrth wneuthurwyr rhaglenni beth i'w wneud, ond mai ei rôl yn hytrach oedd rhoi cyfleoedd defnyddiol iddynt wella'u dealltwriaeth. Roedd pedwar cwestiwn wedi dylanwadu ar ffurf y prosiect:

- Pa gynulleidfaoedd oedd yn cael eu cyrraedd?
- Sut yr oeddent yn cael eu cyrraedd?
- A oedd y defnydd a gâi ei wneud o'r cyfryngau'n newid? Os felly, pa mor gyflym?
- Ble'r oedd cynulleidfaoedd y BBC yn cael eu gwasgu?

Dywedodd wrth y Cyngor bod y defnydd a gâi ei wneud o radio a theledu wedi aros yn eithaf sefydlog dros gyfnod o bum mlynedd, a bod y defnydd a gâi ei wneud o

wasanaethau ar-lein yn cynyddu'n sylweddol. Er mai'r canfyddiad cyffredinol oedd bod pethau'n symud yn gyflym tuag at wasanaethau gwylio ar-alw, roedd y rhan fwyaf o'r defnydd a gâi ei wneud o'r cyfryngau'n dal i ddeillio o arferion gwylio a gwrando'n llinol. Fodd bynnag, er bod ffigyrau gwylio teledu'n dal eu tir ar y cyfan efallai, dywedodd wrth y Cyngor bod teyrngarwch i sianel dan fygythiad mawr a bod lefelau teyrngarwch yn gostwng wrth fynd i lawr yr ystod oedran. Roedd BBC One Wales yn cyrraedd bron i 90% o bobl 65 oed a throsodd bob wythnos, ond dim ond 50% o'r sawl sydd rhwng 16 a 24 oed yr oedd y sianel yn eu cyrraedd. Dywedodd wrth y Cyngor nad teledu oedd yr unig lwyfan lle'r oedd sgiw o ran oedran yn amlwg, oherwydd roedd gan bob gwasanaeth heblaw gwasanaethau ar-lein y BBC gynulleidfaoedd hŷn. Yn ogystal, amlinellodd y cynulleidfaoedd targed y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau BBC Cymru Wales, ac roedd y pwyslais cyffredinol ar dargedu'r rheiny sydd rhwng 45 a 64 oed.

Yn ogystal, roedd y strategaeth yn ceisio denu cynulleidfa ifanc trwy fabwysiadu dull mwy ffres o farchnata. Cafodd y Cyngor gyfle i weld nifer o hysbysluniau a oedd wedi denu cynulleidfaoedd iau – gan gynnwys yr hysbysluniau ar gyfer *Coal House*, *Not In My Nature*, Gŵyl y Faenol, *X-Ray*, yr Eisteddfod Genedlaethol a Phencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad.

Roedd pecynnau *Proffiliau* wedi'u paratoi, a oedd yn darparu 'ysgrifau portread' o wylwyr 'nodweddiadol' ac a oedd yn cynnwys manylion am eu ffordd o fyw yn hytrach na'u defnydd o'r cyfryngau'n unig. Bwriad y pecynnau hyn oedd ceisio galluogi gwneuthurwyr rhaglenni i ddod i adnabod eu cynulleidfaoedd targed yn well, heb gyfarwyddo'r gwneuthurwyr hynny'n ormodol.

Llongyfarchodd y Cyngor y Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd ar y prosiect *Proffiliau* a diolchodd iddo am ei gyflwyniad.

65. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Roedd y Cyngor yn edrych ymlaen at gael canlyniad trafodaethau Pwyllgor Cynghorau Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC ynghylch sut y gallai'r Cynghorau Cynulleidfa barhau i fonitro llwyddiant neu fethiant Newyddion Rhwydwaith y BBC wrth weithredu Cynllun Gweithredu Tîm Rheoli'r BBC yn dilyn Adolygiad Diduedd rwydd yr Ymddiriedolaeth o ddarllediadau Newyddion y Rhwydwaith.

66. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 3 Hydref yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd ac y byddai cinio preifat yn cael ei gynnal ar gyfer y Cyngor gyda'r nos ar 2 Hydref.

***